# Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu De Cymru

Rwy'n falch â pherfformiad Heddlu De Cymru wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth gynhwysfawr o beth yw bod yn agored i niwed ac mae'n ymateb yn dda i ddioddefwyr, gan ddangos dull cyson tuag at ddiogelu. Mae'r heddlu'n ymchwilio'n dda i droseddau yn cynnwys dioddefwyr agored i niwed, gan weithio'n effeithiol â sefydliadau sector cyhoeddus eraill.

Mae'r heddlu wedi gwneud ymdrechion ar y cyd i wella cywirdeb y wybodaeth a gofnodir am droseddau ac mae wedi ymrwymo i gofnodi mewn modd moesegol sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, heb unrhyw bwysau o ran perfformio.

Mae'r heddlu'n parhau i adeiladu ar ei ddealltwriaeth o alw presennol ac yn y dyfodol, ac mae ganddo gofnod cynhwysfawr o sgiliau gweithredol ei swyddogion a'i staff. Mae ganddo gynlluniau buddsoddi cadarn sydd â'r bwriad o wella darpariaeth ei wasanaethau.

Mae gan yr heddlu ddiwylliant moesegol da lle y mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trin pobl â thegwch a pharch. Fodd bynnag, mae angen gwella agweddau ar ei weithdrefn gwyno a sicrhau ei fod yn atgyfeirio'r achosion perthnasol at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Ar y cyfan, mae Heddlu De Cymru wedi atgyfnerthu ei berfformiad da ers asesiad y llynedd.